# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Hydref 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Brian Gibbons (Aberafan):** Dros y tair blynedd diwethaf, sawl swydd sydd wedi'i chreu yn y chwe ardal blaenoriaeth a amlinellwyd yn y Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a pha gyfran yw hynny o'r holl swyddi a grëwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw. (WAQ56568)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Yn seiliedig ar ddiffiniadau gweithio cyfredol, yn ystod y tair blynedd ddiwethaf roedd amcangyfrif o 27.7% o'r holl swyddi a grëwyd i gyflogeion mewn mentrau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW neu TWE yng Nghymru o fewn chwe sector blaenoriaeth Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd. Mae hyn yn gyfystyr â 93,800 o swyddi cyflogeion. Fodd bynnag, gall union gwmpas a diffiniad pob sector newid yn unol â chyngor paneli'r chwe sector unwaith y penodir aelodau. Felly gall y ffigurau rwyf wedi'u darparu uchod hefyd newid.

**Brian Gibbons (Aberafan):** Pa ganran o allforion Cymru sy'n deillio o gwmnïau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor. (WAQ56569)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Nid oes unrhyw ystadegau swyddogol sy'n rhoi data ar allforion gan gwmnïau buddsoddi uniongyrchol tramor yng Nghymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau o fannau agored, yn cynnwys archwiliadau o ddarpariaeth ac asesiadau lleol o angen, fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16, canllawiau cynllunio ar chwaraeon, hamdden a mannau agored. (WAQ56570)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' (Rhifyn 3) yn rhoi fframwaith polisi cynllunio cyffredinol ar gyfer y system gynllunio i sicrhau bod adnoddau tir a dŵr digonol ar gael ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a hamdden ffurfiol ac anffurfiol ynghyd â mannau agored mewn cymunedau lleol, yn ogystal â'r gofyniad i ddiogelu caeau chwarae rhag datblygiadau drwy gynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol, ac wrth bennu ceisiadau cynllunio.

Cefnogir hyn gan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 "Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored" (2009), sy'n rhoi cyngor manylach. Mae TAN 16 yn argymell dull, er nad yw'n ragnodol, sy'n defnyddio Asesiad Man Agored i gynnal asesiad o'r angen lleol ac archwiliad o ddarpariaeth mannau agored presennol i baratoi, monitro ac adolygu polisïau mannau agored Cynllun Datblygu Lleol awdurdod cynllunio lleol ar gyfer cymunedau lleol.

Fel gyda pholisïau drafft Cynllun Datblygu Lleol eraill, mae'n rhaid i bolisïau yn ymwneud â darparu mannau agored fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref a'u profi drwy Ymchwiliad Cyhoeddus gan Arolygydd Cynllunio annibynnol, waeth beth yw'r fethodoleg a ddefnyddir. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau y caiff polisi cynllunio cenedlaethol ei adlewyrchu yn y cynllun.